# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 28 MEHEFIN 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd A M Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | T J Hennegan | P R Hood-Williams |
| J W Jones | P M Meara | D Phillips |
| R V Smith | L V Walton | T M White |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Dirprwy Swyddog Monitro |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Simon Cockings | Uwch-archwilydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

| **Hefyd yn bresennol** | |
|---|---|
| David Williams | Swyddfa Archwilio Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R A Clay, L James a/ac C Thomas

### 6 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd T M White – Cofnod Rhif 10 – Y Diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru – Rwy'n dderbynnydd y Gronfa Bensiwn – Personol.

### 7 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2016 fel cofnod cywir.

### 8 ADRODDIAD ADOLYGIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL.

Cyflwynodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad Llywodraethu. Esboniwyd y lluniwyd yr adroddiad yn dilyn adroddiadau Adolygiad Cyfoedion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Asesu Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru a oedd ill dau yn edrych ar broblemau llywodraethu yn y cyngor.

Mewn ymateb, ymgymerodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ag adolygiad llywodraethu cyffredinol a chyflogwyd Rod Alcott, CLILC, i weithredu fel cyfaill beirniadol allanol. Gwelwyd yr adroddiad a luniwyd gan Rod Alcott gan y Bwrdd Gweithredol a'r Arweinydd ac mae eu sylwadau wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad. Darparwyd copi o'r adroddiad yn Atodiad A ac amlygwyd argymhellion/sylwadau'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol. Trafodwyd y materion canlynol: -

- Deall y gwahaniaethau rhwng gwaith Aelodau/Swyddogion;
- Rolau Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet a gwaith a monitro'r Grŵp Cydlynu Clustnodi;
- Gwaith a blaenoriaethau'r Pwyllgor Archwilio a monitro rheolaidd yr Adroddiad Llywodraethu Blynyddol;
- Sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cyflawni a'u monitro.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Monitro'r argymhellion yn yr adroddiad yn rheolaidd a, lle y bo'n briodol, ddarparu adborth priodol i Ddirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

9 **ARDYSTIO GRANTIAU A FFURFLENNI 2013/14 A 2014/15.**

Cyflwynodd David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru, yr Ardystiad o Grantiau a Ffurflenni ar gyfer 2013/14 a 2014/15. Nodwyd mai argymhellion cyn-archwilwyr allanol y cyngor oedd y rhain; mae'r gwaith archwilio allanol bellach wedi symud i SAC yn uniongyrchol. Crynhowyd bod ar awdurdod, ar y cyfan, wedi rhoi trefniadau digonol ar waith ar gyfer llunio a chyflwyno'i hawliadau grant ar gyfer 2013/14 a 2014/15. Ychwanegwyd bod cyfle ar gyfer gwella yn seiliedig ar y canlynol: -

- Bod yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r archwilwyr i sicrhau bod rhestr gywir a chyfredol o grantiau ar waith ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol; a
- Bod cyfle i wella trefniadau'r awdurdod i lunio ei hawliadau grant ymhellach.

Cyflwynodd yr awdurdod 80% o'i hawliadau ar amser yn 2013/14. Nid oedd gan un hawliad ddyddiad cau penodol. Cyflwynodd yr awdurdod 82% o'i hawliadau ar amser yn 2014/15. Ardystiodd yr archwilwyr yr holl hawliadau, am gyfanswm cost archwilio o £106,615 (2013/14) ac £87,411 (2014/15). Ar y cyfan, arweiniodd yr archwiliadau at ostyngiad o £535,221 yn nifer y grantiau a'r ffurflenni a hawliwyd gan yr awdurdod mewn perthynas â 2013/14 a gostyngiad llai o £468,642 mewn perthynas â 2014/15.

Roedd gan yr argymhellion, a oedd wedi cael gradd risg, gamau gweithredu cytunedig i'w rheoli.

Gofynnodd y pwyllgor lawer o gwestiynau i gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Prif Swyddog Cyllid/Adran 151 a ymatebodd yn briodol. Roedd trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol yn bennaf: -

- Pwysigrwydd sicrhau bod gwersi wedi cael eu dysgu a bod cynnydd o ran argymhellion yn cael ei fonitro'n fanwl;
- Bod y cyfeiriad cyffredinol yn gadarnhaol o ran llai o addasiadau ac addasiadau gwerth is;
- Perygl y bydd yr awdurdod yn colli arian grant yn y dyfodol;
- Bod y mwyafrif o addasiadau grant yn hawliadau lefel is;
- Grantiau a ffurflenni, yn enwedig mewn perthynas ag NNDR yn 2013/14; Menter ar y Cyd Abertawe – Felindre yn 2014/15; Effeithiolrwydd ysgolion a grant amddifadedd disgyblion ac argymhellion R1 i R4;
- Diffyg cynnal cofnodion mewn rhai achosion gan yr awdurdod mewn perthynas â grantiau y gellir eu hail-hawlio o ganlyniad i ddiffyg yr wybodaeth a gadwyd;
- Cadw cofnodion cyffredinol gan yr awdurdod mewn perthynas â grantiau;
- Y safonau uchel a ddefnyddir gan archwilwyr allanol mewn perthynas ag archwilio ardystiad grantiau a ffurflenni a'r swm mawr o arian y mae'r cyngor yn ymdrin ag ef yn gyffredinol o ran gwerth yr eitemau a amlygir yn yr adroddiad;
- Gweithdrefnau grant a ddefnyddir gan ysgolion, sut gall ysgolion brofi pa grantiau a ddefnyddiwyd, e.e. grant amddifadedd disgyblion; a gweithdrefnau a ddefnyddir gan ysgolion i'w gwirio gan yr adran Archwilio Mewnol;
- System adrodd am ganfyddiadau archwilio i Fwrdd Gweithredol/Penaethiaid Gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
2) Y dylai'r holl swyddogion cyfrifol gael eu hysbysu a'u hatgoffa o ganfyddiadau'r archwilwyr allanol a'r rhwymedigaeth i gynnal cofnodion digonol a llawn ar bob adeg i gefnogi hawliadau ardystio grantiau yn y dyfodol.
3) Dosbarthu llythyr i ysgolion yn tynnu sylw at yr angen i gadw gwaith papur perthnasol sy'n ymwneud â grantiau a hawliwyd er mwyn profi a ddefnyddiwyd y cyllid yn briodol.

## 10 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - YR ADRODDIAD DIWEDDARAF.

Cyflwynodd David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Diweddaraf Dinas a Sir Abertawe – Gorffennaf 2016.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd canlynol:

- Gwaith archwilio ariannol 2015-16 - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe;
- Gwaith archwilio ariannol 2015-16 – Dinas a Sir Abertawe;
- Gwaith perfformio 2015-2016 – Dinas a Sir Abertawe.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 11 YMATEB DRAFFT YGG LÔN-LAS I'R CABINET.

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad a oedd yn darparu'r ymateb drafft i'r Cabinet yn dilyn yr adolygiad o brosiect Adeilad Newydd YGG Lôn-las ar ôl iddo gael ei

gyfeirio gan y Cabinet fel y gellir dysgu gwersi a'u mabwysiadu mewn prosiectau yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad y galluogi'r Pwyllgor Archwilio i drafod, adolygu a chyfrannu at ymateb y Pwyllgor Archwilio.

Gwnaeth y pwyllgor sylwadau ar y canlynol: -

- Dylid dileu brawddeg olaf paragraff 3.7.1;
- Rhoi arfer gorau ar waith mewn prosiectau yn y dyfodol a dysgu o brofiadau blaenorol;
- Cael gwybodaeth fwy cywir ar ddechrau prosiectau drwy wario mwy yn y lle cyntaf;
- Pwysigrwydd cynllunio cyllidebol a chynllunio ariannol effeithiol a realistig ar ddechrau prosiectau;
- Pwysigrwydd bod cynghorwyr lleol yn cael eu hysbysu am brosiectau yn eu wardiau.

Gofynnodd y Cadeirydd bod unrhyw sylwadau ychwanegol yn cael eu hanfon ato fe neu'r Prif Archwilydd.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
2) Y dylai sylwadau ychwanegol gael eu hanfon ymlaen i'r Cadeirydd/Prif Archwilydd;
3) Y dylid anfon yr adroddiad wedi'i ddiweddaru i'r Cabinet.

## 12 ADRODDIAD BLYNYDDOL TERFYNOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2015/16.

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2015/16 i'w gymeradwyo cyn iddo gael ei gyflwyno i'r cyngor.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2015/16 a'i gyflwyno i'r cyngor ym mis Gorffennaf/Awst 2016.

## 13 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth

Daeth y cyfarfod I ben am 3.51 pm

**CADEIRYDD**